DARLITH FLYNYDDOL

CYMRU – CENEDL O GYMUNEDAU SY'N DYSGU

- Pleser mawr yw bod yma heno i siarad ynglŷn â sut mae addysg, yn enwedig addysg i oedolion, wedi'i datblygu yng Nghymru. Rwy'n gobeithio bod y dathliad wedi bod yn llwyddiannus a bod pawb wedi mwynhau.

- Yr wyf yn falch iawn o fod yma heno i ymuno yn nathliadau pen-blwydd Partneriaeth Prifysgol Gymunedol y Cymoedd yn 10 oed ac i gael gwahoddiad i gyflwyno'r ddarlith flynyddol.

- Rwyf wedi dewis "Cymru – cenedl o gymunedau sy'n dysgu" fel teitl fy narlith heno, sydd o ddiddordeb hanesyddol o ran sut y mae dysgu trwy gymunedau ac mewn cymunedau wedi datblygu. Mae o ddiddordeb hefyd yng nghyd-destun ein sefyllfa heddiw ac mae'n llywio'r ddadl ynghylch pam bod dysgu cymunedol yn bwysig – beth yw ei berthnasedd ac a ddylai barhau?

- Un o themâu allweddol fy narlith heno fydd dilyniant. Rydym wedi gwneud cynnydd da ond nid ydym erioed wedi colli golwg ar ein gwreiddiau. Fel y byddaf yn amlinellu heno rydym wastad wedi cael sylfeini cryf o ran dysgu cymunedol. Rwyf wedi ceisio adeiladu ar gryfderau a llunio datblygiadau gan ganolbwyntio ar yr hyn sydd o fudd i bob dysgwr.

- Yn ystod fy nghyfnod fel Gweinidog, rwyf wedi rhoi cryn sylw i Gymru fel gwlad sy'n dysgu. Byddwn yn dadlau fod Cymru wedi bod yn wlad lle bu traddodiad cryf o ddysgu cymunedol ers amser. Bu gennym berthynas bersonol iawn gyda datblygu cyfleoedd dysgu. Ers y chwyldro diwydiannol, ystyriwyd addysg i oedolion fel y dull pennaf o drawsffurfio cymdeithas ac adfywio cymunedau. Tra gwelwyd datblygiad dysgu cymunedol ledled y DU yn dilyn y chwyldro diwydiannol – roedd y sefyllfa yng Nghymru, ac yn arbennig yng nghymoedd diwydiannol y De yn fwy dwys.

- Yn hanesyddol, bu gennym ymdeimlad cryf o gymuned ac ymdeimlad cryf o bwysigrwydd dysgu. Credaf fod hyn yr un mor berthnasol heddiw ag yr oedd yn y 19eg ganrif, a heno hoffwn ymchwilio i sut y mae hyn wedi helpu i lunio polisïau'r Cynulliad heddiw.

- Yn wir, yr ethos wrth wraidd datblygu dysgu cymunedol yn Ne Cymru ddiwydiannol oedd y ffaith fod addysg yn cael ei hystyried fel grym a oedd yn rhyddhau. Roedd addysg yn rym dynamig – a chredaf ei fod yn parhau i fod yn allweddol o ran cydraddoldeb cymdeithasol heddiw. Yr hyn sy'n ddiddorol, ac efallai nad yw'n syndod, yw bod datblygu addysg i oedolion, ac yn arbennig addysg ar lefel uwch, wedi cyd-daro â newidiadau sylfaenol yn natur symudiadau a phatrymau llafur.

- Yn y 19eg ganrif gwelwyd llawer o newidiadau cyflym yng Nghymru. Glo oedd y catalydd ar gyfer datblygiadau ledled y DU a'r ffaith bod y diwydiant glo yn chwarae rôl enfawr o ran diffinio cymunedau – gyda miloedd yn mewnfudo i Gymru, gan drawsffurfio Cymru o economi wledig i economi diwydiant trwm. Newidiodd ffordd o fyw llawer o bobl a oedd yn byw yng Nghymru a chredaf ein bod yn profi etifeddiaeth y trawsffurfiad hwnnw heddiw.

- Yn y 19eg ganrif gwelwyd dechreuad ein hetifeddiaeth prifysgolion yng Nghymru gyda sefydlu'r Colegau Prifysgol – yn Aberystwyth, Bangor a Chaerdydd. Deilliodd y rhain o gydnabyddiaeth gymdeithasol o'r angen am gydraddoldeb sefydliadol gyda'r rhai ar draws y ffin – math o gyfreithlondeb cymdeithasol a chydnabyddiaeth fod Cymru yn wlad gyda dosbarth canol a oedd yn prysur ddatblygu. Sefydlwyd y sefydliadau hyn gyda mwy o gyfraniad gan y cymunedau lleol na sefydliadau yn Lloegr a'r Alban – dywedir yn aml iddynt gael eu hadeiladu gydag "arian y tlodion". Gallwn weld bod sefydliadau yn ganolbwynt o hyd, ac mae'r sefydliadau hyn yn parhau i fod â'u gwreiddiau'n ddwfn yn eu cymunedau lleol. Er bod llawer o bobl o'r dosbarth gweithiol wedi bod yn y sefydliadau hyn yn hanesyddol – daethant i fod yn esgynnwyr cymdeithasol ac yn anochel bu iddynt symud o'r cymunedau yr oeddent yn tarddu ohonynt. Dof yn ôl at y pwynt hwn yn ddiweddarach.

- Ar yr un pryd, cafwyd datblygiadau eraill o ran addysg i oedolion yng Nghymru. Ystyriwyd addysg fel y rhyddhäwr mawr, yn ffordd i ddynion dawnus ddianc o waith anodd caib a rhaw a gyflawnwyd yn aml o dan amodau ofnadwy. Gwelwyd cyrff gwahanol yn cael eu sefydlu gydag athroniaethau gwahanol iawn ond gyda chanlyniadau tebyg iawn.

- Y cyntaf o'r rhain oedd Mudiad Addysg y Gweithwyr. Fe'i sefydlwyd ym 1903, a'i gred sylfaenol oedd bod addysg i oedolion yn paratoi'r unigolyn ar gyfer dinasyddiaeth – ei fod yn rhoi'r wybodaeth i'r unigolyn chwarae rhan lawn a gweithredol yn y gymdeithas. Nid oedd bellach yn ffordd o ddianc. Yn hytrach roedd yn caniatáu i'r unigolyn gyfrannu at y gymuned yr oeddent yn rhan ohoni. Yn wir, mae cred y mudiad bod angen hyrwyddo cyfle cyfartal drwy sicrhau bod addysg ar lefel prifysgolion ar gael i bawb yn berthnasol i'n sefyllfa ni heddiw, 100 mlynedd yn ddiweddarach. Mae hyn wrth wraidd fy mholisi o ran ehangu mynediad.

- Ochr yn ochr â Mudiad Addysg y Gweithwyr, gwelwn hefyd hefyd. Roedd athroniaeth wleidyddol wahanol iawn wrth wraidd hyn ac mae'n rhaid ei ystyried yng nghyd-destun ei ysgogiad sy'n wleidyddol yn bennaf. Yr arweinwyr ifanc radicalaidd a sosialaidd oedd yn ei hyrwyddo yn Ffederasiwn Glowyr De Cymru. Fel y mae Keith Davies yn nodi yn ei draethawd *Classes, Colleges and Communities*:

"As they attempted to seize control of the WSMF and turn it in a more confrontational direction, they sought to use the medium of education to influence the ideas they themselves had come to embrace."

- Ystyriwyd addysg fel cyfrwng i ddylanwadu ar eraill – athroniaeth a brofwyd i fod yn fyw o hyd ar ôl fy ymwelid ag Aberystwyth yr wythnos diwethaf. Roedd y safbwynt hwn yn llawer mwy radicalo ran ei wreiddiau yn hytrach na rhyddfrydol – a'r diben i raddau helaeth oedd addysgu dynion a merched i godi safon eu dosbarth cymdeithasol cyfan – yn hytrach na'u haddysgu i'w adael. Datblygiad pwysig Addysg y Dosbarth Gweithiol Annibynnol oedd y rhwydwaith dosbarthiadau nos a ddechreuodd yn yr ardaloedd glo ym 1909 – etifeddiaeth sy'n bodoli hyd heddiw.

- Roedd hefyd yn allweddol o ran sefydlu llyfrgelloedd yn Neuaddau a Sefydliadau Glowyr, creu canolfannau dysg cyn sefydlu llyfrgelloedd cyhoeddus yn y 1920au. Y llyfrgelloedd hyn oedd wrth wraidd cyflwyno llawer o ddynion a merched i ddysg, syniadau a llenyddiaeth ar y pryd, pobl na fyddai wedi cael y cyfle fel arall.

- Ail ddatblygiad pwysig Addysg y Dosbarth Gweithiol Annibynnol oedd y ffaith bod glowyr unigol wedi mynychu Coleg Ruskin, Rhydychen ac yn ddiweddarach, y Coleg Llafur Canolog. Prif nod y Coleg Llafur oedd datblygu mudiad addysg i oedolion gyda chymorth y dosbarth gweithiol yn unig, a oedd yn bodloni anghenion, gofynion a dyheadau'r dosbarth gweithiol. Sefydlodd y Coleg Llafur gynllun darlithoedd drwy'r post i ategu twf colegau lleo, dibreswyl ledled y wlad. Mae hyn yn bwysig, gan iddo roi'r cyfle i'r dosbarthiadau gweithiol yn Ne Cymru ddiwydiannol gael addysg o safon a fyddai wedi bod yn annirnadwy fel arall – rhoddodd "ail gyfle" iddynt. Heddiw, rwyf o blaid mynediad cyfartal i bawb. Ond ni all unrhyw un amau pwysigrwydd y datblygiad hwn ar y pryd.

- Unwaith eto cytunaf â Keith Davies, lle mae'n cyfeirio at ddylanwad Mudiad Addysg y Gweithwyr ac Addysg y Dosbarth Gweithiol Annibynnol fel hyn:

  "True, their political visions differed greatly, but their ultimate ends were not so fundamentally dissimilar. In their ways, each was to make a significant contribution to the development of adult education in South Wales."

- Yr hyn sy'n amlwg i mi wrth nodi'r cyd-destun hanesyddol o ran sut y mae addysg oedolion wedi dod i fodolaeth a datblygu yn Ne Cymru, yw bod addysg oedolion wedi datblygu **oherwydd** y gymuned, yn hytrach na datblygu ynddi neu oherwydd unrhyw rym allanol. Rwy'n ymwybodol bod

yna ddadl academaidd yn mynd rhagddi ynglŷn â'r diffiniad o gymuned – beth ydyw yn ei hanfod? Rwy'n fodlon defnyddio'r gair yn ei ystyr mwyaf syml, fel y caiff ei ddiffinio yn y Collins Concise English Dictionary. Fe'i diffinnir yma fel "the people living in one locality, a group of people having cultural, religious or other characteristics in common, common ownership". Gallaf uniaethu â'r ffaith bod y dyfyniad hwn yn canolbwyntio ar ymuniaethu sy'n parhau i nodweddu'r ffordd rydym yn pennu cymunedau heddiw. Gan ddefnyddio hyn fel man cychwyn, mewn sawl ffordd, mae'r diwydiannau hŷn, sef glo a haearn, wedi diffinio cymunedau De Cymru. Yr hyn y buom yn dyst iddo dros y degawdau diwethaf yw bod ailstrwythuro economaidd wedi arwain at ddirywiad y diwydiannau hŷn, anghynaliadwy hyn, a arweiniodd at gymunedau'n cwestiynu sut y maent yn diffinio'u hunain, ond nid i danseilio'r cymunedau hynny eu hunain. Mae gwerth mewn rhywbeth y mae'n rhaid i ni frwydro i'w ddiogelu.

- Yn arwyddocaol, arweiniodd effaith Streic y Glowyr ym 1984-85 at Dde Cymru ddiwydiannol yn ailddiffinio ei hun yn sgil yr amgylchedd cymdeithasol ac economaidd newidiol. Yn wir, nid yw hyn wedi'i gyfyngu i Dde Cymru ddiwydiannol, gan fod cymunedau gwledig ledled Cymru hefyd yn ei chael hi'n anodd i dderbyn gofynion amgylchedd cymdeithasol ac economaidd newidiol. Yn fy marn i, mae addysg yn galluogi'r cymunedau hyn i barhau i ddiffinio'u hunain.

- Mewn ymateb uniongyrchol i ganlyniadau Streic y Glowyr, gwelwn sefydlu y Gweithdy Dove a datblygiad Prifysgol Gymunedol y Cymoedd. Mae'n mabwysiadu traddodiadau'r gorffennol –sef defnyddio addysg fel cyfrwng i addasu i amgylchiadau newidiol a mynegi angen y gymuned am wellhad.

- Wrth bwysleisio parhad datblygiadau addysgol yng Nghymru, hoffwn ddyfynnu geiriau agoriadol Kenneth O Morgan, a lefarwyd yn narlith agoriadol Prifysgol Gymunedol y Cymoedd,

  "It is vital, for social and cultural as well as educational reasons, that the university remains in close touch with local grass-roots initiatives within the community."

- Credaf fod y geiriau hyn yr un mor berthnasol heddiw ag yr oeddent ddeng mlynedd yn ôl. Ceir sawl carfan o feddylwyr ar rôl y brifysgol yn y gymuned ehangach. Yn sicr mae'r rhyngwyneb rhwng y gymuned a'r brifysgol yn gymhleth. Fodd bynnag, credaf y dylai'r Brifysgol adlewyrchu gwerthoedd diwylliannol y gymuned y mae'n ei gwasanaethu mewn rhyw ffordd.

- Mae'r gred y dylai addysg uwch fod ar gael yn hawdd i bawb fanteisio arni wrth wraidd fy mholisi ar gyfer addysg uwch.Taflwyd amheuaeth ar hyn, lle y cyfiawnheir addysg uwch yn gynyddol trwy ddisgrifio'r byd fel economi sy'n seiliedig ar wybodaeth ac mai dim ond cymdeithas sy'n dysgu all

oroesi. Ai addysg yw'r allwedd i dwf economaidd? Dyma yw cred llywodraethau o bob lliw a llun ac o bob cwr o'r byd. Nid wyf yma i ddadlau dros hyn neu yn ei erbyn – yr unig beth rwyf am ei nodi yw mai dim ond un darn o'r jig-so ydyw yng nghyd-destun cymuned sy'n dysgu.

- Fodd bynnag, nid wyf yn credu o dan unrhyw amgylchiadau y dylai addysg prifysgol fod yn fraint i'r detholedig rai yn unig. Dylai addysg uwch fod ar gael i bawb a all fanteisio arno, heb ystyried dosbarth cymdeithasol na dosbarth economaidd. Dyma yw sail fy naliadau o ran cyfle cyfartal a thegwch. Mae'n amlwg i mi y caiff strategaethau cyfle cyfartal eu hyrwyddo gyda thwf dysgu rhan amser, astudio hyblyg a dysgu sy'n canolbwyntio ar y myfyriwr, sy'n cydnabod ac yn ymateb i anghenion a dyheadau amrywiol myfyrwyr.

- Ar wahân i'r ddadl sy'n nodi mai'r addysg yw'r allwedd i dwf economaidd, byddwn yn dadlau o blaid gwerth cynhenid addysg, i'r unigolyn ac i gymunedau yn gyffredinol. Dyma sydd wrth wraidd gwlad sy'n dysgu. Rydym am i bobl ddysgu trwy gydol eu gyrfaoedd ar gyfer eu hanghenion datblygu – ond caiff y rheini eu mesur ar sail amcanion gyrfaoedd yn ogystal â chyflawniad personol. Sut y byddwn yn elwa ar addysg, ac yn arbennig, addysg uwch? Mae'n rhy hawdd cael ein bwrw oddi ar y trywydd gan y ddadl economaidd – gellir mesur twf economaidd, y potensial o ran ennill cyflog a sefydlogrwydd cyflogaeth yn hawdd. Fodd bynnag, ni ellir mesur gwerth annirweddol addysg uwch – y gallu i werthfawrogi a'r hyder i gwestiynu. Nid yw hyn yn ymwneud â gosod manteision addysg breifat yn erbyn manteision addysg gymdeithasol/economaidd. Mae hunanhyder a hunan-ymddiriedaeth yn ychwanegu gwerth i'r gymuned ac i'r gweithle yn ogystal ag i'r unigolyn. Dylid gwerthfawrogi'r ymdeimlad o gyflawniad personol hefyd. Cysylltir hyn â hunan-ymddiriedaeth ond byddwn yn dadlau ei fod yn argyhoeddi unigolion i beidio â derbyn y terfynau y mae amgylchiadau wedi eu creu.

- Mae addysg hefyd yn broses ailadroddol. Mae'n cyfrannu'r un faint i mewn i'r gymuned ag y caiff ohoni. I mi mae hynny'n nod ynddo'i hun, ond mae'n egwyddor arweiniol hefyd sydd wrth wraidd fy mholisi addysg.

- A pha mor berthnasol yw addysg i oedolion, yn arbennig ar lefel addysg uwch, i'n cymunedau ledled Cymru? Does dim amheuaeth bod cymunedau wedi nodi'r angen am ddysgu cymunedol eu hunain. Rwyf wedi crybwyll mentrau newydd fel Gweithdy Dove ym Manwen, lle yr ymatebodd merched i arferion cymdeithasol ac economaidd newidiol gan nodi'r angen gwirioneddol i feithrin sgiliau newydd, i ailhyfforddi ac ailaddysgu eu hunain.

- Mae'r pwysau hynny'n bodoli heddiw. Y gwir amdani yw bod Cymru, yn debyg i rannau eraill o Ewrop, yn wynebu heriau arferion gwaith newidiol,

gweithlu sy'n heneiddio a thechnoleg sy'n datblygu. Mae'r byd gwaith yn gofyn am sgiliau gwahanol ac ymagweddau gwahanol ac yn sicr mae gwasanaethau allgyrch prifysgolion yn y cymunedau yn yn ddull o roi'r sgiliau angenrheidiol i unigolion. Nodwyd y pwysau hyn yn nogfennau strategol y Cynulliad fel *Cymru'n Ennill* a datblygwyd rhaglenni fel Cymunedau yn Gyntaf i fynd i'r afael â'r materion hyn mewn cymunedau difreintiedig yn benodol. Mae dysgu cymunedol yn chwarae rhan weithredol wrth fynd i'r afael â rhai o'r materion hyn. Ac mae'r rhain yn fwy na geiriau gwag.Rwyf wedi cyfarfod pobl sydd wedi cael budd o addysg uwch, pan nad oeddent yn disgwyl cymryd rhan. Ac rwyf wedi gweld y bobl hynny'n trosglwyddo'r profiad hwnnw a'u hoffter o ddysgu i'w teuluoedd a'u ffrindiau.

- Cyn symud ymlaen i'r cyfleoedd y mae technoleg sy'n datblygu yn eu cynnig i'r gymuned sy'n dysgu – mae'n ddiddorol nodi bod Ymddiriedolaeth Carnegie wedi bod yn defnyddio technoleg mor bell yn ôl â'r 1930au i fynd i'r afael ag allgáu cymdeithasol yng nghymoedd De Cymru. Mae'n hawdd dychmygu pa mor anodd oedd darparu addysg yn ystod degawdau cynnar y ganrif ddiweddaf o ystyried daearyddiaeth yr ardal. Ariannodd yr Ymddiriedolaeth setiau radio i sefydliadau a Neuaddau'r Glowyr ar hyd a lled yr ardal, er mwyn i grwpiau gwrando'r gymuned leol allu cymryd rhan yn narllediadau addysg i oedolion y BBC.

- Mae'r ymdrech hon i oresgyn pellter daearyddol a diffyg cyfleoedd astudio yn berthnasol i ni heddiw. Wrth gwrs, mae'r offer yn wahanol – ond yr un yw'r egwyddorion. Mae technoleg yn cynnig cyfleoedd ac nid oes angen i ni ddibynnu ar unigolion sy'n berchen ar y dechnoleg hon. Mae canolfannau cymunedol yn darparu cyfleuster pwysig drwy ganiatáu i oedolion sy'n dysgu ddefnyddio cyfrifiaduron, y rhyngrwyd a chymhorthion dysgu eraill – sydd unwaith eto'n chwarae rôl ganolog o ran y cymunedau ac adnoddau cymunedol. Mae'r canolfannau hyn yn darparu'r cymorth sydd ei angen, ac yn hyrwyddo dysgu cymunedol yng ngwir ystyr y gair.

- Dyma ble y byddaf yn canolbwyntio ar y cwestiynau a ofynnais ar ddechrau'r ddarlith hon. Pam bod dysgu i oedolion yn bwysig a pham y dylai barhau. Nid oes amheuaeth, yn fy marn i, bod datganoli wedi caniatáu i ni ganolbwyntio'n gliriach ar y ddarpariaeth o addysg ar draws pob sector a ledled Cymru gyfan. Yn wir, mae'n ystrydebol, ond yn wir serch hynny, ein bod yn datblygu polisïau yng Nghymru, sydd wedi'u eu teilwra ar gyfer Cymru. Mae hyn yn eithaf amlwg yn y ffordd rydym yn dargyfeirio ar y polisi ar ffioedd newidiol ar gyfer addysg uwch. Mae'n debygol y cyflwynir y rhain yn Lloegr o 2006 ymlaen. Rwyf wedi gwneud ymrwymiad na chaiff y rhain eu cyflwyno yn ystod oes Llywodraeth y Cynulliad. Wrth gwrs, ni allaf sicrhau ymrwymiad Cynulliadau etholedig eraill. Mae Grant Dysgu'r Cynulliad, sy'n flaenllaw, hefyd yn dangos yn glir ein bod yn ymateb i anghenion Cymru.

- Fel y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol oes, cyflwynwyd fy ngweledigaeth ar gyfer Cymru fel "Gwlad sy'n Dysgu" mewn dogfen baratoi a oedd yn dwyn yr un enw yn 2001. Mae'r ddogfen yn nodi'r camau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn bwriadu eu cymryd – ac mae hyn yn allweddol – mewn partneriaeth â'n cymunedau lleol i gryfhau'r sylfeini ar gyfer dysgu.

- Cynhaliodd Pwyllgor y Cynulliad dros Addysg a Dysgu Gydol Oes adolygiad polisi sylfaenol o addysg uwch a chyhoeddodd ei ganfyddiadau ym mis Ionawr 2002. Dysgodd y Pwyllgor, fel rhan o'r dystiolaeth a gyflwynwyd, fod gweithgareddau cymunedol prifysgolion yn anelu at ddatblygu hyder a dod â phobl i gysylltiad ag addysg uwch, naill ai ar y campws neu yn y gymuned. Nododd y Pwyllgor fod dysgu gydol oes yn gynyddol bwysig oherwydd ei fod yn denu pobl at addysg uwch, yn rhoi sgiliau newydd i ddysgwyr ac yn meithrin diwylliant o ddysgu nad yw'n gyfyngedig i un grŵp oedran.

- Rhaid i ni gydnabod bod addysg uwch yn darparu cyfleoedd i unigolion na fyddent fel arall yn cael mynediad i addysg uwch a'i fod yn borth i gyfleoedd eraill a pherthynas gydol oes gydag addysg. Wrth gwrs, mae'n amlwg mai addysg rhan amser yw'r dull mwyaf effeithiol ar gyfer oedolion sy'n dysgu sydd â chyfrifoldebau ac ymrwymiadau eraill.

- Credaf fod y syniad o wneud cynnydd trwy fframwaith strwythuredig sy'n cynnwys cyrsiau heb ddyfarniadau a chyrsiau gyda dyfarniadau gyda sawl ffordd o gwblhau'r cwrs, a weithredwyd yn y 1990au, wedi trawsffurfio'r ffordd y caiff addysg i oedolion ei chyflwyno. Yn fy strategaeth ar gyfer addysg uwch, *Ymgeisio yn Uwch,* a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2002, nodais fy uchelgais, sef gweld cymdeithas lle y gwerthfawrogir gwybodaeth yn ei rhinwedd ei hun, yn ogystal â'r manteisio a ddaw yn sgil ei chymhwyso.

- Deilliodd Partneriaeth Prifysgol Gymunedol y Cymoedd ei hun o anghenion a dyheadau'r gymuned, y mae'n ei gwasanaethu. Mae'n gymuned yng ngwir ystyr y gair – mae'n gymuned o bartneriaid cymdeithasol amrywiol, sy'n cyflwyno cyfleoedd dysgu addysg uwch a negodir gan fyfyrwyr, sy'n lleol, sy'n canolbwyntio ar y myfyrwyr ac sy'n hunangynhwysol. Nod Prifysgol y Gymuned yw darparu profiad dysgu sy'n hyblyg, yn gefnogol, yn ddiddorol ac yn ystyrlon i fywydau pobl.

- Fel y nododd Hywel Francis yn "*Do Miners Read Dickens?*" *Communities, Universities and a New Beginning:*

  "The concept of a community university with an emphasis on strategic partnerships with employers, trade unions, local government, social

movements, communities and above all adult learners is one way forward to address the growing democratic deficit in Wales."

- Mae'r ffaith bod y Bartneriaeth yn dathlu ei phen-blwydd yn 10 oed fwy neu lai yn dweud y cyfan, sef ei bod yn ymateb i angen mawr yn y gymuned. Nid ydym wedi troi cefn ar ein traddodiadau dysgu.

- Yn fwy cyffredinol, mae'r sector addysg uwch yn wynebu heriau. Cyfeiriais at fy strategaeth ar gyfer addysg uwch yng Nghymru *Ymgeisio yn Uwch* yn gynharach. Ein bwriad yw mynd ati i gryfhau'r sector addysg uwch, er mwyn sicrhau bod ansawdd addysg uwch yn cyfateb â'r addysg a ddarerir unrhyw le arall yn y byd. Mae addysg uwch yn gweithredu ar sail byd eang a dylwn fod yn ymwybodol o hyn bob amser a gweithredu mewn ffordd sy'n sicrhau bod y sector mor gystadleuol â phosibl – heb golli'r ffocws ar ein cymunedau.

- Mae hyn yn newyddion da i ddysgwyr – p'un a ydynt yn rhan amser neu'n llawn amser oherwydd mae sefydliadau yn canolbwyntio ar gyflawni rhagoriaeth wrth fynd ar drywydd yr agenda hon. Yn wir, credaf y bydd *Ymgeisio yn Uwch* yn cryfhau Partneriaeth Cymuned y Cymoedd hyd yn oed yn fwy – gyda'i sefydliadau addysg uwch partner yn cryfhau eu sefyllfa yn y sector yn y DU.

- Yn fy marn bersonol i, mae dyfodol addysg uwch yng Nghymru wedi'i sicrhau. Mae ganddi rôl weithredol o ran datblygu sgiliau unigolion er mwyn iddynt allu cystadlu'n fwy effeithiol yn y farchnad lafur yn ogystal â'i rôl ar gyfer cyflawniad personol. Mae hefyd yn hyrwyddo ac yn cynnal y gymuned y mae'n ei gwasanaethu ac yn cyfoethogi'r gymuned honno ar gyfer y bobl sy'n byw ynddi.

- Mae Cymru yn sicr yn genedl o gymunedau sy'n dysgu.

- Diolch i bawb am wrando.

PARTNERIAETH PRIFYSGOL GYMUNEDOL Y CYMOEDD

Nodyn cefndirol

Dod â Dysg yn Agos i'ch Cartref

Mae Partneriaeth Prifysgol Gymunedol y Cymoedd yn bartneriaeth unigryw rhwng y sector Addysg Uwch a'r sector Gwirfoddol yn Rhanbarth Gorllewin Cymru a'r Cymoedd, sy'n gweithio i ddatblygu cyfleoedd dysgu gydol oes priodol yn y gymuned.

Nod y bartneriaeth yw ehangu cyfranogiad mewn addysg uwch trwy ddod â dysg yn agos i'ch cartref a thrwy sicrhau ei bod yn berthnasol i bob rhan o'n cymunedau. Mae ei gweithgareddau yn targedu cymunedau anghysbell yn benodol, gan ddarparu cyfleoedd dysgu arloesol yn seiliedig ar y gymuned, o astudiaeth anffurfiol i lefel gradd, gan gynnig opsiynau hygyrch i ennill cymwysterau lefel uwch a gwella sgiliau a lefelau cyflogadwyedd.

Blaenoriaethau'r Bartneriaeth

Datblygu'r Cwricwlwm gyda Chymunedau

Mae Partneriaeth Prifysgol Gymunedol y Cymoedd yn ymrwymedig i ddatblygu rhaglenni dysgu arloesol sy'n helpu dysgwyr i wneud cynnydd o ddysgu anffurfiol i lefel gradd, yn ôl yr hyn sy'n briodol i'w gallu. Ei nod yw darparu profiad dysgu sy'n hyblyg, yn gefnogol, yn ddiddorol ac yn ystyrlon i fywydau pobl. Dysgu sydd wedi'i negodi a'i ddylanwadu gan anghenion dysgwyr. Dysgu sy'n cynorthwyo datblygiad personol a chymunedol ac sy'n codi dyheadau pobl o ran yr hyn y gallant ei gyflawni.

Dysgu o Ymchwil

Mae Partneriaeth Prifysgol Gymunedol y Cymoedd yn cynorthwyo pobl i gyflawni rhagoriaeth ym maes ymchwil ac yn darparu adnoddau ar gyfer ymchwilio i faterion sy'n effeithio ar oedolion sy'n dysgu. Trwy ddeall anghenion dysgwyr a chymunedau, gallant anelu at sicrhau bod cyfleoedd dysgu yn addas, gan sicrhau ein bod yn bodloni gofynion a diddordebau cymunedau a chyflogwyr o ran sgiliau.

Sicrhau Ansawdd

Mae Partneriaeth Prifysgol Gymunedol y Cymoedd yn credu mewn anelu'n uchel a chyflawni rhagoriaeth mewn dysgu cymunedol. Mae ei God Ymarfer, Anelu'n Uchel, yn canolbwyntio ar hyrwyddo datblygiadau o ansawdd mewn dysgu cymunedol ac annog darparwyr gwasanaethau i weithio tuag at:

- Gynnal ethos o arfer da a rennir mewn dysgu cymunedol

- Datblygu ymagwedd gyffredin tuag at y cwricwlwm cymunedol
- Sicrhau amrywiaeth o wasanaethau cymorth o ansawdd ar gyfer dysgwyr yn y gymuned
- Darparu canolfannau dysgu cymunedol sydd â chyfarpar da ac sy'n hygyrch

Codi Ymwybyddiaeth

Mae Partneriaeth Prifysgol Gymunedol y Cymoedd yn darparu gwybodaeth i gynyddu ymwybyddiaeth o weithio mewn partneriaeth ac argaeledd cyfleoedd dysgu uwch o fewn cymunedau lleol. Mae'r bartneriaeth yn cynorthwyo gweithgareddau marchnata a recriwtio dysgwyr ei phartneriaid hefyd trwy

- Gwefan Bartneriaeth
- Bwletin Newyddion Ar-lein
- Cynadleddau
- Darlithoedd
- Cyhoeddiadau
- Arddangosfeydd

Datblygu Sgiliau

Mae Partneriaeth Prifysgol Gymunedol y Cymoedd yn cydlynu strategaeth datblygu sgiliau sy'n targedu rheolwyr, tiwtoriaid y gymuned a gweithwyr cymunedol. Ei nod yw cynorthwyo datblygiad proffesiynol parhaus o fewn sefydliadau partner unigol a chynnal digwyddiadau hyfforddi am ddim ar gyfer gweithwyr a gwirfoddolwyr ledled yr ardal bartneriaeth hefyd.

Hyrwyddo Cyfle Cyfartal

Maent yn cynnig hyfforddiant a chymorth arall i hyrwyddo ymwybyddiaeth o gyfle cyfartal a gwella cyfleoedd grwpiau sydd wedi'u hallgau i gael cyfle i ddysgu. Mae'r meysydd ffocws yn cynnwys:

- Gwerthfawrogi Amrywiaeth Diwylliannol
- Ymwybyddiaeth o Hil, Cenedl ac Anabledd
- Cymorth ar gyfer Dysgwyr ag Anableddau

Rhannu Adnoddau ac Arbenigedd

Mae Partneriaeth Prifysgol Gymunedol y Cymoedd yn ymrwymedig i weithio mewn partneriaeth er budd dysgwyr a chymunedau. Ei nod yw integreiddio darpariaeth darparwyr dysgu gwahanol er budd cymunedau a lleihau achosion o ddyblygu ymdrech a gweithgareddau cystadleuol. Dim ond trwy weithio gyda'i gilydd y credant y gallant sefydlu cyfleoedd hyblyg sy'n gwneud camau i ddysgu uwch yn realiti ar gyfer pobl leol.

Partneriaid Strategol

- Prifysgol Cymru Abertawe
- Prifysgol Morgannwg
- Coleg Prifysgol Cymru, Casnewydd
- Prifysgol Agored Cymru
- Menter Cwm Aman
- Adfywio Cymunedol Blaenllechau
- Strategaeth Adfywio Cymunedol Bryncynon
- Ymddiriedolaeth Datblygu Cwmni Clydach
- Gweithdy DOVE, Banwen, Castell-nedd
- Ymddiriedolaeth Datblygu Ebbw Fach
- Canolfan Hyfforddi Glyn-nedd
- Partneriaeth Adfywio Gurnos a Galon Uchaf
- Partneriaeth Arloesi Penywaun
- Prosiect Penderi, Blaenymaes
- Teleganolfan ac Ysgol Fusnes, Y Porth
- Ymddiriedolaeth Datblygu Tredegar
- Sefydliad Addysg y Gweithwyr De Cymru
- Ymddiriedolaeth Datblygu Ystalyfera